Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Yr Uned Asesu Meddygol Acíwt, Ysbyty Treforys

## Dyddiad y gweithgarwch: 08 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-742-7



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o'r Uned Asesu Meddygol Acíwt yn Ysbyty Treforys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Caiff cleifion eu derbyn i'r Uned Asesu Meddygol Acíwt (yr Uned) o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Treforys i gael eu hasesu a'u trin am amrywiaeth o gyflyrau meddygol acíwt. Ym mis Rhagfyr 2020, symudodd y bwrdd iechyd yr Uned i Ward D yn yr ysbyty. Ar hyn o bryd, mae 25 o welyau yn yr Uned, wedi'u rhannu rhwng pedwar bae a thri chiwbicl unigol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r fetron a'r uwch-brif nyrs ar 8 Mehefin 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau ei fod yn cynnal urddas cleifion? Sut y caiff hawliau cleifion eu cynnal?

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Uned Asesu'n effeithiol a bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?

- Sut rydych yn sicrhau bod llif amserol o gleifion drwy'r Uned Asesu? Mewn achosion lle nad yw'r llif yn amserol, sut rydych yn ymateb i hynny?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Canlyniadau'r adolygiad o gwympiadau mwyaf diweddar
- Canlyniadau'r archwiliad atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd mwyaf diweddar.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym am yr heriau a wynebwyd gan y staff yn sgil symud yr Uned i Ward D. Mae amgylchedd cyffredinol Ward D yn llai ac yn gulach na lleoliad blaenorol yr Uned, sydd wedi ei gwneud hi'n anodd gorfodi'r mesurau cadw pellter cymdeithasol rhwng y cleifion a'r staff bob amser. Teimlai'r uwch-brif nyrs fod y staff, er gwaethaf yr heriau hyn, wedi ymdopi cystal ag y gallent o dan yr amgylchiadau er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag y risg o drosglwyddo COVID-19. Tynnwyd cofnodion y cleifion o'u gwelyau a chawsant eu cadw mewn drôr y gellid ei gloi er mwyn lleihau nifer y bobl a oedd yn cerdded drwy'r uned. Mae'r ystafell staff a'r ystafell driniaeth wedi cael eu cyfyngu i ddau aelod o'r staff ar y pryd er mwyn annog y staff i gadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym hefyd fod nifer y clinigwyr sy'n gweld y cleifion wrth eu gwely wedi'i gyfyngu i aelodau allweddol o’r staff yn unig, er mwyn lleihau'r nifer o bobl sydd yn yr uned.

Cawsom gopi o asesiad risg a gwblhawyd ym mis Mai 2021, a oedd yn cynnwys archwiliadau o hylendid a chyflwr cyffredinol yr Uned. Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym y caiff yr asesiad risg ei gynnal bob mis ac y caiff unrhyw welliannau eu nodi a'u rhannu â'r staff fel mater o drefn.

Dywedwyd wrthym y caiff pob claf ei asesu wrth gael ei dderbyn a'i fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff ei anghenion eu diwallu drwy gydol ei arhosiad yn yr Uned. Mae gan bob claf locer i storio eiddo personol ac unrhyw feddyginiaeth sydd ganddynt eisoes ar bresgripsiwn. Pan roddir gofal personol i'r cleifion, tynnir y llenni o amgylch eu gwely a gosodir peg coch y tu allan i'r llenni er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod na ddylent fynd i mewn, ac na ddylid agor y llenni. Dywedwyd wrthym fod llenni preifatrwydd newydd wedi'u prynu ar gyfer pob gwely, sydd â phanel plastic clir ar un pen. Mae hyn wedi golygu bod modd cau'r llenni er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion rhag ei gilydd, ond gan alluogi'r staff i arsylwi ar y cleifion ar yr un pryd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Rhoddodd yr uwch-brif nyrs

sicrwydd i ni fod y panel plastig hefyd yn golygu bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal.

Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym fod pob claf yn cael asesiad risg mewn perthynas â briwiau pwyso a niwed i ni feinweoedd pan gaiff ei dderbyn i'r Uned, ynghyd ag asesiad o'r risg o gwympo o fewn 12 awr i gael ei dderbyn. Caiff cleifion sy'n wynebu risg uchel o ddatblygu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd, neu o gwympo, eu nodi a'u dogfennu ar 'Signal'[1], er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohonynt. Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau misol o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd diweddaraf a gynhaliwyd, i fonitro cydymffurfiaeth y staff â'r gweithdrefnau sydd ar waith i nodi cleifion sy'n wynebu risg. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u nodi drwy'r archwiliadau hyn. Ymhlith y rhain roedd sicrhau y caiff y cynlluniau gofal atal briwiau pwyso sydd ar waith ar gyfer cleifion eu dogfennu'n glir yng nghofnodion y cleifion, a sicrhau yr anfonir llythyrau atal cwympiadau at gleifion a'u teuluoedd. Cadarnhaodd yr uwch-brif nyrs yr atgoffwyd pob aelod o'r staff ers hynny am bwysigrwydd gwneud hyn.

Dywedwyd wrthym fod ymweliadau â'r uned wedi'u cyfyngu yn ystod y pandemig yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys gofal diwedd oes, a lle roedd gan gleifion anghenion penodol fel anabledd dysgu neu nam gwybyddol, y gallai ymwelwyr ddod i'r Uned. Roedd yn ofynnol i ymwelwyr drefnu slot ymweld ymlaen llaw a gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Darparwyd llechi electronig i gleifion eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau o bell. Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym fod trefniadau hefyd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau cyfathrebu rheolaidd rhwng y staff a pherthnasau'r cleifion. Mae'n ofynnol i'r staff a ddyrennir i bob bae ffonio pob aelod dynodedig o'r teulu unwaith bob sifft o leiaf er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym mai ateb dros dro yn ystod y pandemig oedd symud yr Uned i Ward D, a bod cynlluniau ar waith i symud yr Uned eto i flaen Ysbyty Treforys tua diwedd 2021. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi rhagor o wybodaeth i AGIC am y cynlluniau hyn, ynghyd â sicrwydd y bydd y lleoliad newydd yn cynnwys digon o le i storio eitemau hanfodol megis dillad gwely a galluogi'r cleifion a'r staff i gadw pellter cymdeithasol ym mhob rhan o'r uned.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

[1] 'Signal' yw fersiwn electronig o'r bwrdd gwyn 'cipolwg ar ddiogelwch cleifion' a arddangosir fel arfer mewn lleoliadau clinigol i roi gwybodaeth fyw ar gyfer pob claf.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o ganllawiau electronig ar Atal a Rheoli Heintiau. Cawsom gopi o brotocol ar gyfer rheoli brigiadau ac achosion o haint ym maes gofal eilaidd a thrydyddol, a gafodd ei ddiweddaru a'i gyhoeddi gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i COVID-19. Roedd y ddogfen yn cynnwys dolenni i ganllawiau eraill ar atal a rheoli heintiau, megis y Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau, a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac adnoddau eraill yn ymwneud â COVID-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthym fod diweddariadau perthnasol ar COVID-19 hefyd wedi cael eu hanfon dros e-bost er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym am y trefniadau sydd ar waith yn yr Uned i reoli achosion posibl o COVID-19 mewn perthynas â derbyn a rhyddhau cleifion yn ddiogel. Caiff pob claf brawf COVID-19 yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Treforys, a chaiff y cleifion hynny sy'n cael canlyniad positif, neu sydd â symptomau, eu brysbennu a'u trosglwyddo i Uned Asesu Anadlol ar wahân yn yr ysbyty. Dim ond os byddant wedi cael canlyniad negatif neu os nad oes ganddynt unrhyw symptomau y caiff cleifion eu derbyn i'r Uned Asesu Meddygol Acíwt. Yna, caiff cleifion eu profi ar ddiwrnod 3 a 5 o'u harhosiad, a phob dydd Mercher a dydd Sadwrn wedi hynny os byddant yn aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy. Caff unrhyw glaf sy'n profi'n bositif am COVID-19 yn ystod ei arhosiad yn yr uned ei drosglwyddo i ward COVID-19 ddynodedig yn yr ysbyty, a chaiff y gwely ei lanhau'n drylwyr cyn y gellir ei ddefnyddio i drin claf arall. Dim ond ar ôl i gleifion gael prawf COVID-19 negatif a gadarnhawyd y gellir eu rhyddhau adref, neu i leoliad arall megis cartref gofal.

Dywedwyd wrthym am y weithdrefn sydd ar waith mewn perthynas â defnyddio PPE i leihau'r risg o haint yn yr Uned. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o wisgo a diosg PPE yn ddiogel. Mae hyfforddiant o'r fath hefyd wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhaglen sefydlu ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r uned. Mae'n ofynnol i'r staff wisgo masgiau gwrth-hylif, menig, ffedogau a chyfarpar amddiffyn y llygaid wrth ofalu am gleifion o fewn dau fetr. Mae'r staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer masgiau FFP3[2] ac mae gynau llewys hir wedi bod ar gael i'w gwisgo wrth gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol neu ddarparu gofal i gleifion ag achosion a amheuir o'r haint. Caiff cyflenwadau PPE eu harchwilio bob dydd er mwyn sicrhau bod digon ar gael yn yr uned.

[2] Masgiau wyneb sy'n hidlo yw masgiau wyneb FFP3. Cânt eu defnyddio mewn amgylchiadau penodol yn dilyn asesiad risg ac yn unol â chanllawiau ar atal a rheoli heintiau. Rhaid i'r staff gael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithlon ag sy'n ofynnol.

Gwelsom fod staff yr Uned yn cynnal archwiliadau rheolaidd o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau rheoli heintiau. Caiff archwiliadau hylendid dwylo eu cynnal yn wythnosol yn hytrach nag yn fisol, er mwyn helpu i nodi unrhyw faterion yn fwy amserol. Dywedwyd wrthym fod tîm Atal a Rheoli Heintiau canolog y bwrdd iechyd hefyd wedi bod yn cynnal archwiliadau bob pythefnos, gan godi materion ar unwaith er mwyn sicrhau y cânt eu hunioni cyn gynted â phosibl.

Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym y bydd profion llif unffordd ar gael yn fuan fel y gellir profi'r staff yn rheolaidd er mwyn helpu i nodi unrhyw un sy'n heintus ond nad oes ganddo symptomau COVID-19.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom mai'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn yr Uned oedd 81 y cant. O ystyried y pandemig parhaus a'r ffaith bod yr Uned wedi'i symud yn ddiweddar, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â'r hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau fel mater o flaenoriaeth.

Gwnaethom edrych ar yr archwiliad o'r uned a gynhaliwyd gan y tîm atal a rheoli heintiau canolog ym mis Mai 2021, a gwelsom fod materion wedi'u nodi o ran y ffaith nad oedd meddygon na meddygon ymgynghorol yn dilyn y gweithdrefnau o ran hylendid dwylo a PPE yn yr uned. Rydym yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd atgoffa meddygon a meddygon ymgynghorol o'u cyfrifoldeb i ddilyn y polisi noeth o dan y penelin a gofynion PPE yr uned pan fyddant yn gweld cleifion yn yr uned.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn yr uned i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Data ar achosion o salwch ymhlith y staff a swyddi gwag
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADRau)

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd yr uwch-brif nyrs y trefniadau sydd ar waith i helpu i sicrhau bod cymysgedd priodol o sgiliau a niferoedd digonol o staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Caiff anghenion yr Uned a'r Uned Asesu Anadlol eu hasesu ar y cyd, a chaiff rotas eu datblygu ar gyfer pob uned ar yr un pryd. Defnyddir 'Healthroster' fel adnodd electronig i drefnu'r rotas staff yn seiliedig ar ddewisiadau gweithio'r staff ac absenoldebau staff, megis gwyliau neu absenoldeb oherwydd salwch. Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth wedi'u defnyddio i lenwi unrhyw swyddi gwag, yn bennaf yn ystod sifftiau nos. Mae staff asiantaeth wedi'u trefnu mewn blociau lle bynnag y bo hynny'n bosibl er mwyn helpu i sicrhau parhad yn y tîm nyrsio, ac mae aelodau presennol profiadol o'r staff wedi'u dyrannu i weithio sifftiau nos i roi cymorth. Mae'r uwch-reolwyr yn craffu ar y rotas cyn iddynt gael eu cymeradwyo, a chânt eu hadolygu bob pythefnos er mwyn cadarnhau nad yw unrhyw newidiadau dilynol wedi effeithio ar y gofal a roddwyd.
Dywedwyd wrthym y caiff lefelau aciwtedd ar draws y gyfarwyddiaeth eu monitro'n ddyddiol yng nghyfarfodydd y rheolwyr a sgrymiau'r staff, ac y caiff staff eu hadleoli wedyn i'r meysydd lle y nodwyd y risg uchaf ar unrhyw adeg yn ôl y gofyn.

Gwnaethom edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r staff gael hyfforddiant perthnasol. Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i atal yn ystod y pandemig, a bod opsiynau amgen wedi'u rhoi ar waith lle y bo'n bosibl, megis hyfforddiant ar-lein. Fodd bynnag, mae'r gallu i gael gafael ar gyfrifiaduron wedi bod yn broblem i'r staff ers i'r Uned gael ei symud i Ward D. Felly, mae'r staff wedi cael eu hannog i ddefnyddio llyfrgell yr ysbyty neu gwblhau hyfforddiant gartref, a chaiff yr amser ei gredydu'n ôl iddynt.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod newydd o'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu ffurfiol yn yr Uned. Mae hyn yn cynnwys chwe wythnos o amser ychwanegol[3] i ymgyfarwyddo â'r uned a dysgu ac ymarfer sgiliau'n ddiogel. Caiff pob newydd-ddyfodiad ei neilltuo i uwch-aelod o'r staff, a fydd yn ei oruchwylio ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag addysgwr clinigol sy'n goruchwylio ei anghenion hyfforddi.

[3] Yn ystod y cyfnod hwn, ni chaiff y staff eu cyfrif wrth ystyried nifer y staff sydd eu hangen i roi gofal diogel ac effeithiol yn yr uned.

Gwnaethom siarad am y cymorth a gynigir i'r staff ers dechrau COVID-19. Mae'r staff wedi cwblhau asesiadau risg COVID-19 er mwyn helpu i ddiogelu iechyd a lles aelodau o’r staff a all wynebu mwy o risg o ddal yr haint a/neu a allai gael canlyniad andwyol pe baent yn dal yr haint. Mae AGIC yn ymwybodol bod y 12 mis diwethaf wedi bod yn arbennig o heriol ac anodd i'r staff yn sgil profedigaeth cydweithiwr. Dywedwyd wrthym fod sesiynau wedi'u cynnal i'r staff siarad â seicolegwyr, a bod ystafelloedd tawel wedi'u darparu er mwyn i'r staff gael amser tawel i fyfyrio os oes angen yn ystod eu sifftiau.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod 13 o swyddi gwag ar gyfer staff lefel 5 yn yr Uned a'r Uned Asesu Cyflym ar hyn o bryd, sy'n cael eu llenwi drwy ddefnyddio staff asiantaeth a staff banc. Gwelsom y byddai rhai o'r swyddi gwag yn cael eu llenwi gan nyrsys newydd gymhwyso a fydd yn graddio ym mis Medi 2021. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i recriwtio aelodau newydd o'r staff yn barhaus i lenwi'r swyddi gwag, a'r effaith y bydd recriwtio nyrsys newydd gymhwyso yn ei chael ar gymysgedd sgiliau a phrofiad y staff sy'n gweithio yn yr Uned.

Gwelsom mai'r gyfradd gydymffurfio gyffredinol ar gyfer hyfforddiant gorfodol ymhlith staff yr Uned ar ddiwedd mis Mai 2021 oedd 80 y cant. Dywedwyd wrthym fod cynllun gweithredu ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod y gyfradd gydymffurfio yn cyrraedd 85 y cant erbyn diwedd mis Awst 2021. Er bod y cynllun gweithredu yn gam cadarnhaol, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch ei gynlluniau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'i hyfforddiant gorfodol cyn gynted â phosibl.

Gwelsom mai'r gyfradd cwblhau ar gyfer Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADRau) ar gyfer pob aelod o staff yr uned ar ddiwedd mis Mawrth 2021 oedd 58 y cant. Dywedwyd wrthym fod cynllun gweithredu ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod y gyfradd gydymffurfio yn cyrraedd 85 y cant erbyn diwedd mis Mehefin 2021. Unwaith eto, er bod hyn yn gam cadarnhaol, mae PADRau yn bwysig er mwyn i'r staff drafod amcanion a nodi cyfleoedd dysgu a meysydd i'w gwella. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob PADR sy'n weddill ei gwblhau fel blaenoriaeth.

Cawsom restr o'r achosion a fu yn yr Uned yn ystod mis Mawrth 2021 a mis Mai 2021. Gwelsom fod bron hanner y 102 o achosion a fu yn ystod y cyfnod o dri mis i'w priodoli i friwiau lleithedd (37) a briwiau pwyso (11). Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i helpu i leihau nifer yr achosion o'r fath, ac adolygu a yw materion o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol drwy gynlluniau gofal cleifion a thriniaeth sy'n adlewyrchu gwraidd y broblem yn gywir.

## Llif Cleifion

Ar gyfer Unedau Asesu, teimlai AGIC ei bod yn bwysig ystyried llif y cleifion drwy'r adran. Nod hyn yw sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu, eu derbyn a'u rhyddhau mewn modd amserol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom drafod yr heriau a wynebwyd gan y gwasanaeth yn ystod COVID-19 er mwyn sicrhau bod llif y cleifion drwy'r uned yn amserol, yn ddiogel ac yn effeithiol o hyd. Dywedwyd wrthym y bu'n anodd rhyddhau cleifion o'r Uned ar adegau, yn enwedig yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig. Roedd cleifion yn yr uned a oedd wedi profi'n bositif am COVID-19, a oedd yn golygu na ellid eu trosglwyddo i wardiau arbenigedd eraill. Cadarnhaodd yr uwch-brif nyrs fod llif y cleifion wedi gwella ers hynny wrth i nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned leihau.

Cadarnhaodd yr uwch-brif nyrs fod anghenion y cleifion wedi parhau i gael eu hasesu, a bod meddygon ymgynghorol a gweithwyr proffesiynol o dimau amlddisgyblaethol arbenigol wedi parhau i fod ar gael yn ôl yr angen ac mewn modd amserol. Mae'r uwch-staff clinigol yn trafod dyddiadau rhyddhau bras ar gyfer pob claf yn ddyddiol. Mae'r uned wedi recriwtio swyddog llywio yn ddiweddar, sy'n gyfrifol am reoli llif y cleifion drwy fonitro nifer y gwelyau gwag i dderbyn cleifion, ac am gydgysylltu ag arbenigeddau meddygol eraill er mwyn rhyddhau cleifion i wardiau eraill. Mae'r swyddog llywio hefyd yn gyfrifol am nodi unrhyw faterion yn ymwneud â llif y cleifion a'u huwchgyfeirio at yr uwch-reolwyr.

Dywedodd yr uwch-brif nyrs wrthym fod y system Signal electronig newydd wedi golygu bod modd trefnu therapïau a phecynnau gofal cymdeithasol i gleifion yn fwy amserol, sydd wedi arwain at ryddhau cleifion yn gynt. Bu modd rhyddhau cleifion yn gynharach hefyd drwy gydweithio â'r gwasanaeth Gofal Dydd Brys a'r tîm cymunedol acíwt. Mae hyn wedi golygu bod cleifion wedi gallu cael eu rhyddhau gartref a chael eu cludo yn ôl i'r ysbyty drwy'r gwasanaeth Gofal Dydd Brys fel claf allanol am unrhyw brofion neu driniaeth bellach, neu gael gofal ac unrhyw feddyginiaeth drwy ymweliadau cartref gan y tîm cymunedol acíwt.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru

- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Treforys

Adran: Uned Asesu Meddygol Acíwt

Dyddiad y gweithgarwch: 08 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi rhagor o wybodaeth i AGIC am y cynlluniau ar gyfer yr Uned yn y dyfodol, ac addasrwydd unrhyw leoliad newydd o ran rhoi digon o le i symud drwy'r uned, a digon o le storio. | Safon Iechyd a Gofal 2.1 | **Diweddariad**<br>Mae proses dendro'n mynd rhagddi ar gyfer y gwaith o ailddatblygu'r ardal ddynodedig ar gyfer yr Uned newydd, a phan fydd y broses honno wedi'i chwblhau, caiff dyluniadau penseiri eu cwblhau. Bydd lle storio a mynediad digonol yn rhan o'r briff a roddir i'r cwmni llwyddiannus.<br><br>**Cam Gweithredu**<br>Caiff dyluniad y pensaer, yn dangos y lle storio, ei ddarparu i AGIC. | Arweinydd Ailddylunio'r Gwasanaeth Meddygol Acíwt a'r Cyfarwyddwr Cynllunio Cyfalaf | Cwblhawyd<br><br><br><br><br><br><br><br><br>Rhagfyr 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â'r hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau fel mater o flaenoriaeth. | Safon Iechyd a Gofal 2.4 | **Y Gyfradd Gydymffurfio bresennol ar gyfer Hyfforddiant ar Atal a Rheoli Heintiau yn yr Uned (Gorfodol) = 81% yn unol â'r adroddiad**<br>Bydd metron yr Uned yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni cynllun adfer er mwyn sicrhau bod pob aelod priodol o'r staff nyrsio wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau<br><br>(Caiff Hyfforddiant Gorfodol ei adolygu'n fisol gan Uwch-dîm Rhanbarthol fel rhan o Ddangosyddion y Gweithlu)<br><br>Pennaeth Atal a Rheoli Heintiau i adolygu'r cynllun adfer a'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon at Gyfarwyddwyr Nyrsio a Chyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol y Grŵp Gwasanaethau. | Dirprwy Bennaeth Nyrsio<br><br>Pennaeth Atal a Rheoli Heintiau | Awst 2021<br><br>Medi 2021 |
| 3 | Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa meddygon a meddygon ymgynghorol o'u cyfrifoldeb i ddilyn y polisi noeth o dan y penelin a gofynion PPE yr uned pan fyddant yn gweld cleifion yn yr Uned. | Safon Iechyd a Gofal 2.4 | Cyfarwyddwr Meddygol a Nyrsio'r Grŵp i ysgrifennu at bob aelod o'r staff i'w atgoffa o'i gyfrifoldeb i gydymffurfio â'r gweithdrefnau o ran atal a rheoli heintiau, PPE a hylendid dwylo. | Cyfarwyddwr Meddygol a Nyrsio'r Grŵp | Cwblhawyd ym mis Mai 2021 |
| 4 | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch y camau sy'n | Safon Iechyd a Gofal 7.1 | Cwblhau VCF ar gyfer swyddi gwag a gymeradwywyd gan y panel ac | Metron yr Uned | 31 Gorffennaf |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cael eu cymryd i recriwtio aelodau newydd o'r staff yn barhaus i lenwi'r swyddi gwag presennol, a'r effaith y bydd recriwtio nyrsys newydd gymhwyso yn ei chael ar gymysgedd sgiliau a phrofiad y staff sy'n gweithio yn yr Uned. | | ailwampio hysbysebion.<br><br>Sicrhau bod y rhaglen sefydlu ar waith ar gyfer pob newydd-ddyfodiad yn yr Uned a lliniaru unrhyw risg i'r cymysgedd sgiliau. | Metron yr Uned | 2021<br><br>30 Awst 2021 |
| 5 | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch ei gynlluniau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'i hyfforddiant gorfodol cyn gynted â phosibl. | Safonau Iechyd a Gofal 3.1 a 7.1 | Caiff cynllun y Grŵp Gwasanaethau Ysbyty ar gyfer yr Uned ei fonitro fel rhan o'i waith i gyflawni'r targedau ar gyfer hyfforddiant gorfodol gan y tîm gweithredol yn ystod adolygiadau perfformiad chwarterol. | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2021 |
| 6 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob PADR sy'n weddill ei gwblhau fel blaenoriaeth. | Safon Iechyd a Gofal 7.1 | Caiff cynllun y Grŵp Gwasanaethau Ysbyty ar gyfer yr Uned ei fonitro fel rhan o'i waith i gyflawni'r targedau ar gyfer hyfforddiant gorfodol gan y tîm gweithredol yn ystod adolygiadau perfformiad chwarterol. | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2021 |
| 7 | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i helpu i leihau nifer uchel yr achosion o friwiau lleithedd a briwiau pwyso, ac adolygu a yw materion o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol drwy gynlluniau gofal cleifion a thriniaeth sy'n adlewyrchu gwraidd y broblem yn gywir. | Safon Iechyd a Gofal 2.2 | **Diweddariad**<br>Mae gan y bwrdd iechyd broses adolygu sicrwydd a her strategol a gyflawnir drwy'r Grŵp Craffu ar Gynlluniau Atal Briwiau Pwyso (PUPSG) sy'n bwydo i mewn i Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Llywodraethu y bwrdd iechyd. Mae cynllun gwella strategol ar waith ar gyfer y bwrdd iechyd.<br><br>**Cam Gweithredu** | Cadeirydd PUPSG | Gorffennaf 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Y Panel Craffu ar Gynlluniau Atal Briwiau Pwyso i barhau i graffu ar bob achos o friwiau pwyso a briwiau lleithedd a geir wrth gael gofal iechyd, er mwyn sicrhau y caiff y gwersi a ddysgir eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r safle a chefnogi addysg ehangach.<br><br>Ailwampio cynllun gwella Briwiau Pwyso/Briwiau Lleithedd CGI Treforys | Pennaeth Nyrsio – Treforys<br><br>Pennaeth Nyrsio – Treforys | Cwblhawyd (Cynhelir cyfarfodydd misol)<br><br>Medi 2021 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Mark Madams, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp – Grŵp Gwasanaethau Ysbyty Treforys

Dyddiad: Gorffennaf 15